# SL(6)186 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o 28 Mawrth 2022 er mwyn–

- hepgor Rhan 3 o'r prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau hunanynysu os ydynt yn cael canlyniad positif am y coronafeirws, neu os ydynt yn gysylltiadau agos i bersonau sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws (ond mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell hunanynysu);
- newid gofynion y prif Reoliadau i orchuddion wyneb gael eu gwisgo ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn mannau cyhoeddus o dan do penodol fel nad ydynt ond yn gymwys mewn mangreoedd iechyd a gofal cymdeithasol mwyach;
- hepgor y gofyniad penodol i bersonau sy'n ymgyrchu mewn etholiad gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws (ond bydd yn ofynnol o hyd i bleidiau gwleidyddol gymryd mesurau rhesymol o'r fath o dan reoliad 16 o'r prif Reoliadau mewn perthynas â'u gweithgareddau mewn mangreoedd rheoleiddiedig);
- hepgor y drosedd benodol yn y prif Reoliadau o ymwneud â threfnu digwyddiad cerddoriaeth mawr sydd heb ei drwyddedu.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a nodir uchod a'r rheini sydd wedi eu gwneud i'r prif Reoliadau yn flaenorol.

Maent hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol i'w gwneud yn glir bod unrhyw ofyniad cyfreithiol i berson hunanynysu yn peidio pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym. Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berthnasol i berson o'r fath.

Er gwaetha'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn, mae'r prif Reoliadau yn parhau i ddarparu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau yn gymwys.

## Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw

ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.*

*Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd.  Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur â'r nod hwnnw. Rhaid hefyd gydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws.  Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i reoli cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*Oherwydd y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd cymesur a brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.